CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**20 Hydref 2022**
Teitl:	**Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, 2021/22.**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor.** **Er gwybodaeth**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Mesur yn pennu swyddogaethau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ac mae'n nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor baratoi adroddiad i'r Cyngor o leiaf un waith y flwyddyn.

Caiff Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ei ddefnyddio i wneud y canlynol:
a) Tynnu sylw at waith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd;
b) Dangos sut mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud gwahaniaeth;
c) Cefnogi gwelliannau parhaus i'r Cynghorwyr.

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** Na. Nid yw'r adroddiad yma yn cyfeirio at Bolisi neu newid i gwasanaeth. ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** Ddim yn berthnasol. **Cydweithio:** Ddim yn berthnasol. **Cynnwys:** Ddim yn berthnasol. **Atal:** Ddim yn berthnasol. **Integreiddio:** Ddim yn berthnasol.
Argymhelliad:	**Nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, 2021/22.**
Rheswm dros y penderfyniad:	**Rhoi gwybod i'r Cyngor am waith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.**
Trosolwg a chraffu:	Ddim yn berthnasol.
Fframwaith Polisi:	Ddim yn berthnasol.

Amcanion Strategol:	• Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas at y diben o ddarparu gwell gwasanaethau i fodloni anghenion ein dinasyddion.
Goblygiadau Ariannol:	Dim.
Pwerau Statudol:	Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Papurau Cefndir:	Dim.
Atodiad:	Atodiad A – Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd – 2021/22
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	1 Hydref 2022

Pwyllgor y Gwasanaethau Demcrataidd

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Blynyddol 2021/22

Cynnwys

	Tudalen
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor	3
Aelodau'r Pwyllgor 2021/22	5
Gweithgareddau'r Pwyllgor	6
Y flwyddyn i ddod	10
Mynychu'r Pwyllgor / Cysylltu â ni	11

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol benodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2012, cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw:
Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol o ddynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD);
Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd;
Paratoi adroddiadau i'r cyngor llawn ar y â'r materion hyn, o leiaf unwaith y flwyddyn;
Ystyried, amser y cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor;
Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau.

Aelodaeth
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod a benodir gan y Cyngor.

Cadeirydd
Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethau am gyfnod o ddwy flynedd fwrdeisdrefol yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2, Rhan 2 y Cyfansoddiad)

Cyfethol
Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

Is-bwyllgorau
Gall y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau fel a phan fydd angen a dirprwyo swyddogaethau iddynt.
Y Pwyllgor fydd yn penodi unrhwy is-bwyllgor.

Presenoldeb i ateb cwestiynau
Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw Aelodau neu Swyddogion y Cyngor ateb cwestiynau a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n hoffi gwneud hynny hefyd. Os yw aelod neu swyddog yn gorfod bod yn bresennol mae'n rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau oni bai bod y cwestiwn yn un y byddai hawl ganddynt i'w wrthod mewn llys.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

(parhad)

Mynediad at wybodaeth

Mae rheolau Mynediad ar Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 o'r Cyfansoddiad.

Amlder y cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith mewn unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol.

Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am gyfarfod.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fo angen.

Canllawiau Llywodraeth Cymru

Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Adroddiadau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd o fewn tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.

Aelodaeth o'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 Aelod ac mae'n wleidyddol gytbwys. Yn 2021/22 cafodd ei gadeirio gan y Cynghorydd Ceredig Davies. Mae'r Aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd i i ddatblygu gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

Cadeirydd

Cynghorydd Ceredig Davies
Democratiaid Rhyddfrydol
Presenoldeb 3/3

Cynghorydd Clive Davies
Plaid Cymru
Presenoldeb 2/3

Cynghorydd Lloyd Edwards
Heb ei grwpio
Presenoldeb 2/3

Cynghorydd Gwyn James
Annibynnol
Presenoldeb 3/3

Cynghorydd Dai Mason
Annibynnol
Presenoldeb 3/3

Cynghorydd Wyn Thomas
Plaid Cymru
Presenoldeb 3/3



Gweithgareddau'r Pwyllgor

2021/22

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r wybodaeth isod yn tynnu sylw at y materion a drafodwyd a'r farn a fynegwyd gan y Pwyllgor:

Adolygiad o faint pob Pwyllgor

Yn dilyn adolygiad gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru, nodwyd y byddai'r nifer o gynghorwyr sy'n cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion yn lleihau o 42 i 38 o fis Mai 2022. Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsbleidiol i ystyried argymhellion ynghylch gostyngiad i nifer yr Aelodau ar sawl un o'i bwyllgorau. Yna cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsbleidiol i'r Cyngor a'u cymeradwyo.

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynllun gweithredu yn ymwneud â'r Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth a oedd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys 6 nod ac amserlen ar gyfer gweithredu a fydd yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd maes o law. Nododd aelodau rôl i'r grwpiau gwleidyddol hyrwyddo amrywiaeth gan annog unigolion i sefyll yn yr etholiad ym mis Mai 2022 gyda'r nod o wella amrywiaeth mewn democratiaeth.

Disgrifiad rôl Aelodau Etholedig

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ddiwygiadau arfaethedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r disgrifiadau rôl sy'n adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio ochr yn ochr â'r cynllun Datblygiad Aelodau Cymru (Fframwaith Cymwyseddau). Nodwyd bod Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn rhan o ddatblygu'r diwygiadau hyn ochr yn ochr â Swyddogion ac Aelodau sy'n cynrychioli pob Cyngor yng Nghymru. Penderfynodd y Pwyllgor argymell y gwelliannau i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Cymeradwyid y Disgrifiadau Rôl gan y Cyngor yn dilyn hyn.

Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru 2021

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y fframwaith a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel canllaw i nodi blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant a datblygu. Nododd yr aelodau bod dyletswydd ar bleidiau gwleidyddol i arwain ar nifer o'r eitemau, a nodwyd pwysigrwydd hyfforddiant er mwyn sicrhau bod Aelodau yn gallu darparu lefel uchel o gefnogaeth i'w trigolion. Nodwyd hefyd y byddai Aelodau'n gallu hunan-werthuso eu hanghenion datblygu yn unol â'r fframwaith datblygu ac y byddai hyfforddiant yn cael ei deilwra i gwrdd â'r anghenion hynny.

Gweithgareddau'r Pwyllgor

2021/22 (parhad)

Adolygiad o effaith Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Cafodd Aelodau eu cynghori ar brif agweddau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys:

· Gofyniad i gyhoeddi strategaeth yn annog cyfranogiad gan bobl leol
Nodwyd bod strategaeth ddrafft wedi ei chyflwyno i'r Cabinet er mwyn ei hystyried.

· Darllediadau electronig o gyfarfodydd
Nodwyd bod offer newydd yn cael osod yn Siambr y Cyngor ym Mhenmorfa er mwyn cwrdd gofynion y ddeddfwriaeth yma, ac y byddai hyn yn cael ei hwyluso drwy gyhoeddi protocolau, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a gaiff ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022 gan arwain at ganllawiau. Gofynnodd yr aelodau a oedd presenoldeb wedi cynyddu o ganlyniad i gynnal cyfarfodydd o bell, a chadarnhawyd bod y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol.

· Gofyniad i ddatblygu cynllun e-ddeiseb
Nodwyd bod Ceredigion yn arwain ar gynllun e-ddeiseb ar gyfer Cymru gyfan ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno'n amodol ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022 a chanllawiau sy'n deillio o hynny.

· Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol
Nodwyd bod Cyngor Sir Ceredigion yn cyhoeddi cyfeiriadau swyddogol i bob Aelod ar hyn o bryd ac o fis Mai 2022, byddai cyfeiriad generig yn cael ei gyhoeddi.

· Galluogi rhannu swyddi ac absenoldebau teuluol
Nodwyd bod y gofynion uchod wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

· Dyletswyddau sy'n berthnasol i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad
Nodwyd bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

· Adolygiad o faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg o 5 Mai 2022 ymlaen. Nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac fe gyflwynwyd argymhelliad i'r Cyngor bod nifer yr aelodau lleyg yn cynyddu o 1 i 3 a bod nifer aelodau'r Cynghorydd Sir yn parhau yn 6.

Gweithgareddau'r Pwyllgor

2021/22 (parhad)

Newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor

Adolygodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymhelliad i reolau gweithdrefnau'r Cyngor yn ymwneud â Chynigion ar Rybudd, Gweithdrefnau Galw i Mewn ac egwyddorion y mecanwaith pleidleisio sy'n ymwneud â mwyafrif syml a phleidlais y Cadeirydd. Nodau'r diwygiadau oedd symleiddio ac egluro'r gweithdrefnau mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynnig, gwneud gwelliannau cyn y cyfarfod ac yn ystod y cyfarfod, ac egluro beth y gellir ac na ellir eu galw i mewn, y meini prawf ar gyfer cyfeirio at y Cyngor a chydsyniad mewn perthynas â phenderfyniadau brys. O ran y mecanweithiau pleidleisio, argymhellwyd bod rheolau'r Cyngor cyffredinol yn cael eu dyblygu ar gyfer pob Pwyllgor o fewn y Cyfansoddiad. Argymhellodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor fod yr uchod yn cael eu gweithredu. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion.

Darpariaeth TGCh Aelodau yn dilyn etholiadau 2022

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn cynnig bod Aelodau yn derbyn yr un darpariaethau TGCh â staff, sef gliniadur *Windows* , sgrin 24" gyda'r gallu i'w osod mewn gorsaf ddocio fewnol neu ar wahân sy'n caniatáu i'r gliniadur gael ei gysylltu ag un cebl, bysellfwrdd, llygoden, clustffonau a chês cario sylfaenol. Byddai cyfeiriad e-bost Ceredigion a chyfrif Office 365 yn cael eu gosod, gyda'r gallu i osod pecynnau Office at hyd at 5 dyfais bersonol. Byddai cyfleusterau argraffu a sganio'n cael eu darparu yn Ystafell yr Aelodau, gyda mynediad at Wi-Fi ym mhob un o swyddfeydd y cyngor. Byddai'r aelodau yn gallu cael mynediad at e-byst a ffeiliau Office o ddyfeisiau personol a ffonau symudol a byddai hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer dyfeisiau a diogelu data, tra byddai cefnogaeth TGCh o ddesgiau gwasanaeth TGCh corfforaethol yn parhau i gael eu darparu. Cytunwyd, yn dilyn yr etholiad, y byddai Aelodau yn cael yr un offer a ddarparwyd i'r Aelodau presennol ym mis Ionawr pan gafodd yr ipadiau eu datgomisiynu a bod y mater yn cael ei ystyried eto yn ystod y weinyddiaeth nesaf.

Contract band eang / ffibr cyflym

Cafwyd cais gan Gynghorydd i ystyried ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu contract band eang / ffibr cyflym grŵp i bob Cynghorydd a Uwch Swyddogion y Cyngor. Nododd aelodau'r Pwyllgor fod dros 1000 o staff yn cysylltu bob dydd o'u cartrefi drwy fand eang a'u bod yn gallu cyflawni'r rhan fwyaf o'u dyletswyddau. Pe bai'r Awdurdod yn cymeradwyo band eang cyflym i rai unigolion, byddai angen cytuno ar bolisi pwy fyddai'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn, pam bod ganddynt hawl a sut y byddai'n cael ei ariannu.

Nododd aelodau hefyd fod cyfathrebu rheolaidd wedi digwydd gydag Openreach a Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo band eang yng Ngheredigion a bod gwelliannau'n digwydd ar hyd yr amser. Yn ystod y cyfarfod canlynol nodwyd na fyddai hyn yn ymarferol yn ariannol oherwydd y gost uchel, a bod Ceredigion ar y blaen i weddill Cymru ar hyn o bryd gyda 26% o'i phoblogaeth ar ffibr. Roedd Openreach hefyd i fod i lansio gwefan yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, y dechnoleg a band eang ar draws y Sir.

Gweithgareddau'r Pwyllgor

2021/22 (parhad)

Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022
Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y rhaglen sefydlu drafft, gan nodi bod sesiwn hyfforddi ychwanegol wedi'i chynnwys yn benodol ar gyfer Aelodau'r Cabinet. Nodwyd bod yr amserlen yn gynaliadwy, ac y byddai'n well pe bai modd darparu hyfforddiant mewn modd tameidiog.

Hunan-werthuso Craffu
Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad y Swyddogion Craffu oedd yn ymwneud â Hunan-werthuso Craffu. Nodwyd bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol a bod nifer y cwestiynau wedi eu lleihau fel y cynigiwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y flwyddyn flaenorol, ond roedd ymatebion wedi gostwng i 15 o'i gymharu â 25 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cytunodd y mwyafrif o Aelodau fod sefydliadau Partneriaethau a Phartneriaid wedi bod yn destun Craffu effeithiol, bod ganddynt rôl werth chweil a boddhaus, bod gan Graffu berchnogaeth o'i rhaglen waith ei hun, bod newidiadau wedi'u cyflwyno o ganlyniad i weithgaredd craffu a bod aelodau'r cyhoedd yn gallu cyfrannu. Roedden nhw'n cytuno bod digon o drefniadau cefnogi i graffu a bod cydweithio effeithiol gyda swyddogion. Cynhaliwyd yr hunan werthusiad yn ystod cyfnod pan oedd yr holl gyfarfodydd o bell yn unig a chafwyd ymateb cymysg ynghylch a oedd cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o bell mor effeithiol â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gyda rhai'n cytuno eu bod mor effeithiol ac eraill yn anghytuno.

Diwygiadau i'r ffurflen gais am Ollyngiad
Gofynnodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ystyried diwygio'r ffurflen gais am Ollyngiad i nodi bod y wybodaeth sydd o fewn y ddogfen ar gael i'r cyhoedd. Diwygiwyd y ffurflen i nodi hyn.

Cyfarfodydd Misol Rheolaidd
Gofynnodd Pwyllgor y Gwasanaeth Democrataidd am gynnal cyfarfodydd misol o bell rhwng y Grŵp Arweinyddiaeth a'r holl Gynghorwyr yn ystod y cyfnod clo er mwyn darparu diweddariad ar Covid-19. Mewn cyfarfod diweddarach, cadarnhawyd bod y cyfarfodydd misol bellach yn cael eu cynnal.

Rhaglen Waith
Nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod pob Aelod yn gallu cynnig ychwanegiadau i'r Rhaglen Waith Ymlaen wrth i faterion godi. Mae'r eitem hon wedi'i chynnwys ar bob agenda cyfarfod ar gyfer trafodaeth.



Y flwyddyn nesaf

Dyma'r meysydd allweddol y bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn eu hystyried yn ystod 2022/23:

- Monitro'r materion sy'n codi yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Adolygu'r arolwg hunan-werthuso blynyddol o Drosolwg a Chraffu er mwyn adlewyrchu gwelliannau i ddeddfwriaeth;
- Adolygu'r Panel Taliadau Annibynnol blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau a chanlyniadau Cymru;
- I gynnal arolwg o ran amseru cyfarfodydd;
- Cynnal arolwg amrywiaeth a chynhwysiant gydag Aelodau a fydd yn darparu meincnod ar gyfer etholiadau yn y dyfodol ac yn darparu cyfleoedd i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau;
- I adolygu'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer yr holl Aelodau;
- Trefnu gweithdy i'r holl Aelodau ar brotocolau ar gyfer mynychu cyfarfodydd hybrid;
- Trefnu gweithdy i bob Aelod ar ddefnyddio'r system 'Clic';
- Sicrhau bod cefnogaeth ddigonol yn cael ei ddarparu i'r Aelodau;
- Unrhyw faterion a gaiff eu codi gan Aelodau sy'n gofyn am ystyriaeth y Pwyllgor.

Mynychu Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd / Cysylltu â ni

Dod i gyfarfodydd y Pwtllgor Gwsanaethau Demcrataidd

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau o'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a holl gyfarfodydd eraill y Cyngor, gan gynnwys y Cyngor llawn, cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cynhelir holl fusnes y Cyngor yn gyhoeddus ac eithrio eitemau cyfrinachol. Cyhoeddir yr holl bapurau cyhoeddus ar-lein a chânt eu cyhoeddi 3 diwrnod gwaith o flaen llaw http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/committees/

Cysylltu â ni

Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd neu os ydych chi am wneud sylw neu awgrym, cysylltwch â ni:

Y Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
SA46 0PA

01545 570881
democratiaeth@ceredigion.gov.uk

Dilyn y Cyngor ar Facebook a Twitter

facebook www.facebook.com/CeredigionCC

twitter @CeredigionCC